# Cenn@d

16 Medi 2026

Rhifyn 290

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru


## Cymorth Cristnogol – Apêl Llifogydd Nepal



*"Clywais sŵn uchel y llifogydd a dechreuais banicio wrth feddwl am holl aelodau fy nheulu: ble oedden nhw? A oedden nhw'n gallu rhedeg i fyny'r allt ai peidio? Dechreuais ffonio fy ngŵr a'm mab, ond nid oedd modd cysylltu â nhw dros y ffôn. Rhedais tuag adref; roeddwn yn sgrechian ac yn crio. Llwyddais i ddod o hyd i fy nai a gofyn iddo ble oedd pawb; dywedodd eu bod i gyd yma."*

Dyma rannodd Shanti am ei brofiad ar 26 Awst pan rwygodd llifogydd anferth drwy gymunedau ar y ffin rhwng Nepal a Tibet gan achosi colled a difrod angheuol.

Mae cannoedd o bobl wedi colli eu bywydau a miloedd yn dal ar goll. Ysgubwyd ymaith gartrefi, pontydd, anifeiliaid, cyflenwadau bwyd a phob dim, gan ynysu cymunedau oedd eisoes yn anodd eu cyrraedd.

Yn yr oriau'n dilyn y trychineb, roedd partneriaid Cymorth Cristnogol yn ymateb. Roedd timau o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi ar eu ffordd at gymunedau yn Nuwakot i osod gwersyll iechyd ar gyfer pobl oedd wedi'u hanafu. Roedd timau eraill yn paratoi eitemau brys fel bwyd, poteli dŵr, deunyddiau hylendid a rhwydi rhag mosgitos, ac roedd grwpiau o ddoctoriaid, nyrsys a chwnselwyr yn dod at ei gilydd.



Dywedodd cyd-weithwyr sy'n cydlynu'r ymgyrch gyda'n partneriaid yn Nepal fod marchnadoedd lleol wedi dod i stop oherwydd y dinistr, gan effeithio'n syth ar incwm a bywoliaethau'r bobl fregus ac ychwanegu at y pwysau ar deuluoedd. Yn fwyaf arbennig, roedden nhw'n pwysleisio maint y pryder a'r trawma mae cymunedau'n eu profi. Roedd llawer o bobl wedi dianc rhag y dŵr ag eiliadau yn unig wrth gefn. Cafodd plant eu gwahanu oddi wrth eu rhieni; mae pawb yn nabod nifer o bobl sydd wedi colli eu bywydau, ac maen nhw wedi gweld pobl yn cael eu tynnu o'r dŵr a'r mwd. A gan fod yr ardaloedd sy'n agos at yr afonydd yn fregus iawn, maen nhw'n ofni y daw trychineb pellach yn sgil rhagor o lifogydd.

Diolch o galon am bob gweddi a chyfraniad sy'n galluogi ein partneriaid i sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y cymunedau sydd ei angen fwyaf. Gyda'n cymorth, maent yn darparu lloches frys, bwyd, dŵr a chyfleusterau glanweithdra, ynghyd â chymorth hanfodol arall.

**https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/nepal-floods-appeal**

*Lluniau: trwy garedigrwydd Uma Bista/FCA*
*Chwith: Shanti Maya a'i chartref wedi'i ddinistrio gan y llifogydd yn rhanbarth Nuwakot*
*Uchod: Pobl yn ymgynnull mewn man diogel i weld difrod y llifogydd yn rhanbarth Nuwakot*


Noddfa yn nerth ac yn gymorth
**Tudalen 3**

Y Cwlwm Priodasol
**Tudalen 4**

Cynllun peilot newydd yn Nhrefeca
**Tudalen 5**


## Gweddi dros Nepal a Tibet

Wylwn gyda phobl Nepal a Tibet.
Mae'r lluniau'n adrodd hanes colledion enbyd.
Galwn arnat ti, O Dduw, ar ran y rhai sydd mewn colled a phrofedigaeth,
dros y rhai na allai achub eu hanwyliaid.
Galarwn gyda'r rhai a gollodd eu cartrefi i'r lli.
O Dduw, gwylia dros y rhai sydd eto'n aros i gael eu hachub,
Gweddïwn yn daer dros y rhai sydd wedi'u heffeithio
gan y llifogydd angheuol mewn unrhyw ffordd
a'r rhai sy'n gweithio'n ddiflino i gyrraedd cymunedau sydd wedi colli popeth.
Credwn fod pob bywyd yn werthfawr,
a bod galwad arnom i ymateb i ddioddefaint ein cymydog
gyda thosturi, gobaith a ffydd ar waith.
Tro ein dychryn a'n tristwch ninnau'n weithredoedd,
Gad i ninnau fod yn ddwylo ac yn draed i Ti,
yn estyn llaw a sefyll gyda'n cymdogion yn eu harswyd dwfn a'u hangen brys.
Yn enw Iesu, Amen.

## Gwebinar: Llygaid Cymru ar Dde Sudan

## Dydd Mawrth, 22 Medi 13.00–14.00

Ymunwch â Chymorth Cristnogol ar-lein dros amser cinio i glywed gan James Wani, Arweinydd Rhaglen a Phartneriaeth De Sudan Cymorth Cristnogol yn Juba.




Heddiw yn Ne Sudan, mae dros 7 miliwn o bobl – hanner y boblogaeth – yn wynebu newyn a chyfraddau uchel o ddiffyg maeth. Mae'n wlad sydd yn parhau i brofi gwrthdaro, dadleoli, ansicrwydd bwyd ac effeithiau dwys yr argyfwng hinsawdd. Mae'n un o sefyllfaoedd dyngarol mwyaf difrifol ein hoes, ac eto, yn anaml y byddwn yn clywed sôn amdani yn y penawdau.

Trwy ein 'Apêl Cynhaeaf' eleni, rydym yn taflu golau ar realiti bywyd cymunedau yn Ne Sudan, lle mae llifogydd, sychder, diffyg dŵr glân a mynediad cyfyngedig at hadau ac offer yn effeithio ar fywyd teuluol. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd wedi i'r cynhaeaf fethu sawl gwaith.

Er gwaetha'r heriau yma, mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn parhau i weithio ochr yn ochr â chymunedau, gan gefnogi pobl i adeiladu gwytnwch, ymateb i argyfyngau a chreu newid cynaliadwy.

Dewch i glywed gan James am realiti'r gwaith hwn a sut y medrwn wneud gwahaniaeth: **Cofrestrwch yma i ymuno â'r cyfarfod**

## Cymorth Cristnogol yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wahardd mewnforio nwyddau o aneddiadau anghyfreithlon Israelaidd

Mae'r elusen ddyngarol ryngwladol Cymorth Cristnogol wedi croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wahardd mewnforio nwyddau o aneddiadau Israelaidd anghyfreithlon fel cam pwysig wrth herio dadleoli'r Palestiniaid o'u tiroedd.

Wrth ymateb i ddatganiad Ed Miliband, Ysgrifenydd Tramor y Deyrnas Unedig, dywedodd Cymorth Cristnogol ei fod yn ymateb priodol i'r ffaith fod Israel wedi bod yn torri'r gyfraith ryngwladol ers amser maith.

Dywedodd William Bell, Pennaeth Polisi Dwyrain Canol Cymorth Cristnogol:

'Nid dim ond datganiad am statws cyfreithlon ffrwythau a llysiau ydi hwn heddiw ond cam yn erbyn y bygythiad dirfodol i'r Palestiniaid sy'n cael eu gorfodi oddi ar eu tir.

'Mae'n ymateb priodol i droseddu amlwg yn erbyn cyfraith ryngwladol sydd wedi tanseilio'r gobaith am heddwch cyfiawn rhwng Palestiniaid ac Israeliaid ers degawdau ac sydd wedi gadael teuluoedd yn ddigartref, mewn cyflwr argyfyngus ac yn ddibynnol ar gymorth.

'Oherwydd y brys, rhaid i'r gwaharddiad hwn ddigwydd ar unwaith. Dylid gweithredu sancsiynau llawn yn erbyn darparu gwasanaethau fel adeiladu neu ariannu aneddiadau Israelaidd cyn gynted ag sy'n bosibl.

'Gallwn groesawu hyn fel man cychwyn i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn ymateb i'w chyfrifoldeb i beidio â chefnogi meddiant anghyfreithlon fel hwn, fel a amlinellwyd yn Nogfen Gynghori'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn 2024.'

# Noddfa yn nerth ac yn gymorth

## gan Mererid Mair

Sut ydach chi'n teimlo am fis Medi? I rai mae'n gyfnod trist o ffarwelio efo'r haf a'r dyddiau hirfelyn tesog. I eraill, mae'n gyfnod braf o ddod yn ôl i rywfaint o 'drefn' ar ôl wythnosau digyfeiriad yr haf. Er rhaid cofio fod nifer yn parhau i weithio drwy'r haf. Ond dyma'r cyfnod pan fydd y mwyafrif yn cael cyfle i fynd ar wyliau neu i fwynhau dyddiau allan a byw bywyd ychydig yn llai prysur na'r arfer.

Ond sut bynnag rydach chi'n teimlo – mae hi yn fis Medi sy'n golygu, os oes plant neu bobl ifanc yn eich teulu neu'ch teulu estynedig, yna bydd angen cael trefn a pharatoi i gychwyn dosbarth newydd yn yr ysgol neu gychwyn coleg, prifysgol neu gwrs hyfforddi. Efallai bydd rhai yn cychwyn gwaith newydd. Ond mae'n gyfnod i 'ddod nôl i drefn' – heb os! Dwi ddim yn berson 'rwtîn', a deud y gwir, ac mae cychwyn tymor newydd ar ôl yr haf yn gallu bod yn sioc i'r system. Ond dwi'n teimlo'n gyffrous eleni am fod cyfnod prysur a chyffrous o'n blaen ni yn eglwys Noddfa, Caernarfon.

### Noddfa

Mae'r rhai sy'n fy adnabod yn gwybod, er bod fy ngwreiddiau a'm gweinidogaeth efo'r Annibynwyr, rwyf wedi treulio mwyafrif o fy amser rhwng corlan yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid! Ac ers ugain mlynedd dwi'n Weithwraig Gymunedol yn eglwys Noddfa, Caernarfon, sy'n rhan o Henaduriaeth Arfon. Mae'n un o eglwysi ieuengaf yr enwad, a deud y gwir, ac wedi ei sefydlu yn dilyn ymdrechion cenhadol Emily Roberts – neu'r Chwaer Emily fel roedd pobol yn ei hadnabod ac fel mae pobol yn ei chofio. Un o 'Chwiorydd y Bobl' oedd Emily; carfan o ferched oedd yn teimlo galwad i genhadu a gwasanaethu yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol a mwyaf difreintiedig Cymru dan nawdd Y Symudiad Ymosodol (The Forward Movement). Dechreuodd y gwaith yn niwedd y 19ganrif a daeth i ben yn y 1970au.

### Y Chwaer Emily

Yn y 1950au daeth Emily i genhadu a gwasanaethu i'r stad o dai cyngor newydd oedd wedi eu codi yng Nghaernarfon; stad Ysgubor Goch fel yr oedd yn arfer cael ei hadnabod. I ddechrau byddai Emily yn casglu plant y stad a mynd â hwy i'r ysgol Sul a'r gobeithlu yn y dref. Ond yn fuan iawn, teimlodd alwad i sefydlu cenhadaeth ar y stad – yng nghynefin y plant. A dyna a wnaeth! Capel sinc ddaeth yn gyntaf. Yn 1956 clywodd Emily fod capel Wesle ym Mhorthmadog yn cau a threfnodd i ddod â'r capel sinc ar drelars a'i godi yn Cil Peblig, Caernarfon. Tyfodd y gwaith ac yn fuan roedd yr hen gapel sinc yn rhy fach i'r holl blant ac oedolion oedd yn mynychu gwasanaethau a chyfarfodydd. Aeth Emily ati i drefnu codi arian i godi capel mwy sefydlog. Gyda chefnogaeth y gymuned a'r henaduriaeth codwyd adeilad newydd. Roedd Emily hefyd yn benderfynol o weld yr adeilad yn cael ei gysegru yn eglwys fel bod gan y gymuned ei heglwys ei hun. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf yn y Noddfa newydd ym mis Medi 1966. Gweithiodd Emily yn ddiflino er mwyn cyhoeddi neges Crist o gariad, maddeuant a gras a bywyd newydd ynddo Ef. O ganlyniad i'w hymroddiad, dioddefodd gyfnodau anodd o ran ei hiechyd. Ond ei nod bob amser oedd cryfhau er mwyn gallu parhau â'r gwaith a'r genhadaeth.

### Newidiadau

Sefydlwyd Noddfa a thyfodd y gwaith yn ystod y 50au a'r 60au – cyfnod pan ddechreuwyd gweld dirywiad ym mywyd ffydd yn ein gwlad, felly roedd Emily yn bendant yn llwyddo yn erbyn yr anawsterau. Ond erbyn yr 1970au, gwelwyd dirywiad mewn niferoedd yn Noddfa hefyd. Yn 1976 penderfynwyd trosglwyddo'r adeilad i bwyllgor newydd oedd wedi ei sefydlu i redeg Canolfan Gymunedol Noddfa. OND – fel rhan o'r cytundeb rhwng yr Eglwys a'r pwyllgor newydd, roedd yr Eglwys yn parhau i gyfarfod bob Sul ac yn gyfrifol am y ganolfan ar y Sul



a neilltuwyd swyddfa at ddefnydd yr eglwys yn y ganolfan. Mae'r patrwm yn parhau hyd heddiw.

Yn yr 1980au cychwynnwyd ton o waith cenhadol newydd gan EBC dan nawdd Bwrdd y Genhadaeth ac ers hynny, mae gweithwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid wedi eu lleoli yn Noddfa er mwyn cenhadu a gwasanaethu – yn union fel gwnaeth Emily. Mae oedfa yn cael ei chynnal bob prynhawn Sul am 3 o'r gloch; gwasanaeth, paned a sgwrs – ac nid oes dal ym mha drefn fydd hynny'n digwydd! Ond os galwch chi heibio unrhyw Sul am 3, mi fyddwn ni yma yn moli Duw a chymdeithasu a chynnal ein gilydd. Mae'r gwaith hefyd yn ymestyn allan i wasanaethu yn y gymuned – fel gweledigaeth Emily.

### Cyffro dathlu

Felly, pam ei bod yn fwy cyffrous mis Medi yma nag unrhyw flwyddyn arall? Os ydych wedi bod yn graff, fe sylwch fod 2026 yn garreg filltir bwysig i ni yn eglwys Noddfa. Sefydlwyd y genhadaeth yma 70 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr eglwys 60 mlynedd yn ôl ac mae pwyllgor y ganolfan yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth. Felly mae llawer o ddathlu i'w wneud. **Bydd gennym Oedfa o Ddathlu ar 20 Medi am 3 o'r gloch.** Ac ar 18 Hydref bydd perfformiad o ddrama gomisiwn newydd ar fywyd a gwaith Emily Roberts yn Noddfa, wedi ei sgwennu gan Iola Ynyr, gyda Siwan Llynor yn actio Emily Roberts. Felly, mi fyddwn ni'n brysurach na'r arfer yma yn Noddfa – ond da yn wir fydd cael dathlu!

## Seminar Arbennig
## yn Saron, Creunant

**Dyddiad:**
**Dydd Gwener, 2 Hydref 2026, am 7:00yh**

**Lleoliad:**
**Saron, Creunant, SA10 8NT**



Rydym yn falch iawn o groesawu Korea Church Cymru i Saron ar gyfer noson arbennig, ac rydym yn estyn croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Y Parchedig Young Chul Lee fydd yn arwain y noson. Cwblhaodd ei astudiaethau diwinyddol yng Nghorea ac enillodd Ddoethuriaeth mewn Gweinidogaeth (DMin) gan Regent University yn yr Unol Daleithiau. Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad fel gweinidog ac mae wedi bod yn ymwneud ag adeiladu ysgolion ac eglwysi ar draws Asia ac Affrica, gan gynnwys Uganda.

Bydd y Parchedig Lee yn cyflwyno syniadau ymarferol a ffyrdd o rannu ein ffydd ag eraill ac annog ein cynulleidfaoedd i dyfu, gan ddefnyddio'r hyn y mae'n ei alw'n 'Dull Efengylu 3 Munud'. Gyda'r dull hwn, mae naw o bob deg o bobl wedi dod i ffydd newydd yn Iesu Grist.

Mae'r noson hon yn addas ar gyfer aelodau eglwysi, arweinwyr eglwysig, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhannu ffydd mewn Iesu Grist ag eraill.

Mae'r Parchedig Jacob a Sookie o Eglwys Thornhill, y cawsom y fraint o ymweld â hi, wedi gofyn i Saron gynnal y noson arbennig hon. Bydd y Parch Lee hefyd yn ymweld ag eglwys yn Hanover. Byddai'n hyfryd rhoi croeso cynnes iawn iddynt ac i'n ffrindiau o Eglwys Corea, Caerdydd.

Mae croeso cynnes i bawb – dewch i ymuno â ni am noson arbennig o gymdeithasu, dysgu ac ysbrydoliaeth gyda the a choffi.

Cadwch y dyddiad yn eich dyddiadur: dydd Gwener, 2 Hydref, am 7:00yh.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Saron!

W. Rhys Locke

Saron, Crynant
Saron, Creunant

# Y Cwlwm Priodasol

### Ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr

Hoffai Cytûn dynnu eich sylw at ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 'Y Cwlwm Priodasol: Ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr', sydd ar agor tan 24 Medi 2026. Cafodd hwn ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 16 Gorffennaf, ac felly ni fydd llawer o eglwysi wedi ei weld.

Er nad yw cyfraith priodas yn fater datganoledig, byddai'r diwygiadau arfaethedig yn berthnasol yng Nghymru yn ogystal â Lloegr, a gallent olygu newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae priodasau crefyddol yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol a'u cynnal.

Mae'n bosibl bod materion penodol y bydd aelodau am eu hystyried o safbwynt Cymru, gan gynnwys unrhyw oblygiadau i le'r Gymraeg a'i defnydd ymarferol o fewn y trefniadau newydd arfaethedig. Ymhlith y cynigion mae newidiadau i'r ffordd y byddai sefydliadau crefyddol a sefydliadau cred yn gallu enwebu swyddogion i gynnal priodasau cyfreithiol, gan gynnwys meini prawf arfaethedig sy'n ymwneud â hyd yr amser y mae sefydliad wedi bodoli a nifer yr aelwydydd sy'n aelodau ohono. Gallai'r darpariaethau hyn effeithio'n wahanol ar enwadau a chyrff crefyddol llai o'u cymharu ag eglwysi mwy.

Os yw hyn yn newydd i chi, mae'r ymgynghoriad ar gael yma: Y Cwlwm Priodasol: Ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr

**https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6a69c4e14dda8076771a42d7/weddings-reform-consultation-welsh.pdf**

**Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen ymgynghori ar gael.**



# Cynllun peilot newydd yng Nhrefeca i feithrin dysgu diwinyddol a ffurfiant Cristnogol

Bydd cynllun peilot newydd ar gyfer dysgu diwinyddol a ffurfiant Cristnogol yn cael ei lansio yng Ngholeg Trefeca yr hydref hwn, gyda'r encil astudio cyntaf yn digwydd 6–8 Hydref 2026. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel ffordd newydd o gynnig addysg ddiwinyddol hygyrch, ymarferol a ffurfiannol.

Daw'r ysgogiad ar gyfer yr hyfforddiant hwn o ganlyniad i'r cyfeiriad a roddwyd gan y Gymanfa Gyffredinol ym Mhorthmadog i roi pwyslais newydd ar hyfforddiant. Mae'r awydd hwn wedi'i fynegi'n glir drwy'r broses ymgynghori ddiweddar o fewn y Cyfundeb.

Gyda chefnogaeth yr Adran Hyfforddiant ac Ymgeiswyr, nod y cynllun peilot hwn fydd dwyn ynghyd ddiwinyddiaeth, gweddi, addoliad, trafodaeth, myfyrio a bywyd yr Eglwys, gan helpu'r rhai sy'n derbyn yr hyfforddiant i gysylltu'r hyn maen nhw'n ei ddysgu efo bywyd a gwasanaeth Cristnogol bob dydd.

Thema'r encil cyntaf fydd 'Ffurfiant Ysbrydol a Dirnad ein Galwedigaeth'. Dros y tridiau, bydd y rhaglen yn ystyried pynciau fel gweddi a'r Ysgrythur, arferion ysbrydol, galwad a galwedigaeth, cymeriad ac arweinyddiaeth, yr Eglwys fel cymuned, a chenhadaeth yn y Gymru gyfoes.

Bydd y patrwm yn fwriadol amrywiol. Ochr yn ochr â sesiynau addysgu, bydd amser ar gyfer gweddi, myfyrio tawel, trafodaeth mewn grwpiau bach, tystiolaeth bersonol a sgwrs. Y nod yw creu amgylchedd lle gall pobl ddysgu gyda'i gilydd, gofyn cwestiynau gonest a chysylltu diwinyddiaeth â realiti bywyd a'r eglwys leol.

Un nodwedd bwysig o'r cynllun yw nad oes disgwyl i'r rhai fydd yn cymryd rhan ynddo fod wedi cael unrhyw addysg ddiwinyddol ffurfiol flaenorol. Gall y rhai sy'n mynychu gynnwys gweithwyr eglwysig, blaenoriaid, arweinwyr lleyg, oedolion iau, pobl sydd eisoes yn gwasanaethu mewn lleoliadau gyda'r Cyfundeb neu'n gymunedol, a'r rhai sydd eisiau mynd yn ddyfnach yn eu ffydd.

Bydd y cynllun hefyd yn rhoi pwyslais ar fentora a dysgu parhaus. Yn hytrach na gweld yr encil fel digwyddiad annibynnol, y gobaith yw y bydd yn dod yn rhan o lwybr ehangach o ddysgu, myfyrio a gwasanaethu.

Mae Trefeca yn lleoliad arbennig o briodol ar gyfer y fenter. Ers dyddiau Howell Harris, mae'r safle wedi bod yn gysylltiedig â gweddi, ffurfiant, cymuned a dysgu Cristnogol. Mae'r cynllun newydd yn ceisio tynnu ar y dreftadaeth honno nid yn unig fel rhywbeth i'w gadw o'r gorffennol, ond fel adnodd ar gyfer ffurfio Cristnogion a chryfhau'r Eglwys Gymreig heddiw.

Cynllun peilot yw encil mis Hydref, a bydd adborth gan y mynychwyr yn helpu i lunio'r cam nesaf. Y gobaith yw datblygu rhaglen gyson o encilion astudio yn Nhrefeca, gan gynnwys diwinyddiaeth Feiblaidd, y traddodiad Diwygiedig a Phresbyteraidd, cenhadaeth, gofal bugeiliol, addoliad, arweinyddiaeth a galwedigaeth.

Mae lleoedd yn gyfyngedig, a gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn derbyn rhagor o wybodaeth neu am fynegi diddordeb yn yr encil cyntaf i gysylltu â:

trysor@trefeca.org



## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Cyfarfod Cenhadol yr Henaduriaeth

Pnawn Sadwrn,
3 Hydref, am 2 o'r gloch
Capel Elim, Llanddeiniol, SY23 5AN

Cyflwyniad ar waith Golau Gras a gwasanaeth y llyfr thema,
dan ofal Sarah Morris

Croeso cynnes i bawb

## Gofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion

Seion, Aberystwyth;
Bethel, Tal-y-bont
Horeb, Penrhyn-coch;
Bethel, Aberystwyth

**Cynhelir Oedfa Sefydlu**

**Y Parchedig J. Geraint Morse BD, MTh**

yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist


**Ddydd Sadwrn,**
**7 Tachwedd 2026,**
**am 2.00 y.p.**
ym Methel, Tal-y-bont

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â chyfeillion yr eglwysi ar yr achlysur hwn*

*Darperir lluniaeth ysgafn yn Neuadd Goffa Tal-y-bont wedi'r oedfa*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 35**

## Ymson Rahab

Dwi eisiau rhannu am y noson y daeth dau ddieithryn at fy nrws. Wyddwn i ddim pwy yn y byd oedden nhw ac roedd ofn arna i.

Ro'n i wedi clywed yr hanesion droeon – am y môr yn agor o flaen y bobl, y brenhinoedd a gafodd eu lladd, a'r Duw a'u harweiniodd nhw allan o'r Aifft. Do'n i ddim yn adnabod y Duw yma nac wedi amgyffred ei ffyrdd. Ond y noson honno roedd rhyw lais yn sibrwd oddi mewn imi ei fod yn Dduw byw, real.

Ar amrantiad roedd yn rhaid dewis: gofalu amdanaf fy hun, neu gymryd risg. Ond dyna'r llais yn sibrwd unwaith yn rhagor. Ac yn hytrach na dechrau poeni a phetruso, fe es i â'r dieithriaid i fyny i'r to a'u cuddio. Yna, pan ddaeth milwyr y brenin, dywedais gelwydd a'u gyrru ymaith. Wrth wylio'r milwyr yn diflannu i'r tywyllwch, gwyddwn nad oedd dim troi 'nôl.

Do'n i'n sicr ddim yn deall popeth, ond roedd y llais wedi dweud bod ffydd yn warant o bethau na ellir eu gweld. Efallai fod ffydd yn golygu cymryd cam anodd pan fo'r llwybr yn aneglur. Roedd gen i gyfle ac fe'm sbardunwyd gan ffydd nad o'n i wedi'i phrofi o'r blaen. Wedi'r cwbl, gŵyr pawb call nad yw cyfle'n aml yn dod eilwaith.

A'r noson honno, fe ddysgais mai Duw radical yw Duw cariad. Dyw e ddim yn edrych ar bobl fel pawb arall; dyw e ddim yn beirniadu, nac yn gwrthod neb. Er bod eraill yn mynd heibio imi, yn fy mhardduo, yn f'anwybyddu, gwelodd Duw fy nghalon … reit i mewn i'w gwaelod hi; gweld calon agored, ewyllys i ymddiried, dewrder i wneud!

Efallai ein bod weithiau'n ofni bod Duw ar fin dymchwel ein syniadau bach taclus a'n patrymau arferol. Chi'n gweld, mae e weithiau'n dewis y rhai annisgwyl, y rhai ar y cyrion, y person yn y gornel, yr un yn y cysgod. Nid yw'n gofyn 'Ble ti 'di bod?' neu 'Be ti 'di'i wneud?' neu 'Beth yw dy swydd?' neu 'Be ti 'di'i gyflawni?' Dyw e ddim eisiau gwybod faint ry'n ni'n ennill, na pa ddillad ry'n ni'n eu gwisgo, pwy yw ein ffrindiau, ydym ni'n berffaith ai peidio. Na. Dyma mae'n ei ofyn: 'Be wnei di pan ddaw'r cyfle?'

A rywsut, rywfodd, medrais ddal y cyfle gerfydd fy nwylo. Roedd y risg yn fawr a gallwn golli fy mywyd mor hawdd. Ond wyddoch chi beth? Nid y noson honno yw diwedd y stori, fy stori; edrychodd y Duw byw arnaf, a dangos imi sut y mae ffydd heb weithredoedd yn farw. Fe gydiodd yn fy nwylo i mewn gwirionedd a'm tynnu tuag ato. Rhoddodd imi ddyfodol na fedrwn fyth fod wedi'i ddychmygu.

Mae gen i deimlad ei fod yn edrych arnoch chithau, a'i ddwylo'n ymestyn allan o'i flaen, yn cynnig cyfle ac yn dweud "Dere!"

**Holi**

- O ddarllen Hebreaid 11, gwelwn mai 'trwy ffydd' y cyflawnwyd yr holl bethau sydd wedi'u rhestru yn y bennod, yn cynnwys profiad Rahab. Ydych chi'n ymwybodol, neu oes gennych brofiad, o bethau radical yn cael eu cyflawni 'trwy ffydd'?
- Beth sydd gan Rahab i'w ddysgu inni am weithredu'n hyderus pan nad yw'r atebion yn sicr?

A pha ofnau, fel unigolion neu o fewn ein heglwysi, sy'n atal neu'n effeithio ar ein penderfyniadau i gymryd risg? Ydy ofn yn ein dal ni yn ôl?

- Anwybyddu'r rhagfarnau yn erbyn Rahab wnaeth Duw. Dyna wnaeth Iesu Grist hefyd yn aml. O fewn ein heglwysi, sut mae modd inni weithredu athrawiaeth gras Duw i bawb? Oes yna gamau y gallwn eu cymryd i fod yn fwy cynhwysol?
- Newidiwyd cyfeiriad bywyd Rahab yn llwyr oherwydd ei phenderfyniad. Oes cyfle i chi ddewis gweithredu'n ddewr (gweithred fach neu fawr) ac i hynny gael mwy o effaith nag rydych yn ei sylweddoli?

**Gweddi**

Dduw hawddgar,
rho inni'r awyddfryd i weld cyfle
ac i ddewis gweithredu.
Dduw goleuedig,
cyfeiria dy belydrau
fel y gwelwn y rhai sy'n wahanol i ni
a'u gwerthfawrogi.
Dduw cymodlon,
dysg ni i sylweddoli bod mwy yn aml
yn digwydd tu ôl i'r wyneb nag ar yr
olwg gyntaf.
Dduw cynhwysol,
annog ni i amlygu cariad a
thangnefedd yn ein gwneud a'n
dweud. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 20 Medi 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Manon Ceridwen James, Esgob Bangor

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 20 Medi, am 12:00yp**
Oedfa o dan arweiniad Tomos Roberts-Young, Port Talbot

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 20 Medi, am 7.30yh**
Ymunwch â'r gynulleidfa yn Eglwys Sant Iago, Treffynnon, ar gyfer Cymanfa Ganu Cofio Thomas Pennant.

# O'r byd a'r betws

Colofn Denzil I John



# Cofia Ddysgu Byw

Bydd mis Medi yn arwyddocaol am lawer o bethau, ac yn eu plith nodir bod trefn y flwyddyn ysgol yn dechrau. Cyfnod ailgydio mewn rhaglen waith yw hwn, a gweld disgylion yn camu ymlaen yn y cynlluniau y bydd y wladwriaeth wedi eu trefnu. Yn sgil canlyniadau arholiadau fel TGAU a Lefel 'A', bydd nifer o ddisgyblion yn gadael y system addysg yn llwyr neu'n symud ymlaen i'r haenau eraill sydd ar gael i'r ifanc. Mae'n siŵr y bydd gan bawb ohonom atgofion personol o dderbyn canlyniadau'r arholiadau a gweld y broses addysgol fel camfa bwysig yn ein hanes.

Yn ystod mis Awst cafwyd adroddiad yn trafod beth fydd disgyblion yn ei ddewis i'w fwyta amser cinio. Bydd rhai'n dewis cario'u cinio o'u cartref, tra bydd eraill yn prynu cinio ysgol. Yn yr adroddiad a ryddhawyd, dywedwyd bod llawer o ddisgyblion yn dewis bwyd nad yw o reidrwydd yn faethlon, y math o fwyd sy'n llawn braster neu siwgr, heb boeni gormod am y niwed y bydd y rhain yn ei achosi i'r corff. Deallwn fod rhai Cynghorau Sir a Llywodraethwyr Ysgolion yn gosod canllawiau clir ar gyfer y bwydlenni hyn, tra mae sefydliadau ysgolion eraill dan bwysau i wneud elw neu ganiatáu i gwmni masnachol ddarparu bwydydd i'r disgyblion – cwmnïau sydd y tu allan i reolaeth yr awdurdodau sirol.



Onid yw'r dewis rhwng yr hyn sy'n fuddiol a'r hyn sy'n llesol yn amharu ar fywydau llawer ohonom? Mae ymarfer corff yn llesol, ond mae llawer yn dewis hwylustod teithio mewn car i fynd ar daith gymharol fer. Bydd darllen yn llesol i bawb, ond dewis canran uchel yw gwylio teledu, heb fawr o wahaniaeth beth yw'r arlwy. Bydd amser myfyriol mewn oedfa eglwysig yn llesol, ond faint sy'n dewis yr hyn sy'n felys a dim mwy?

Yn ystod mis Medi cyhoeddwyd ystadegau profion Pisa, a bu 'rhincian dannedd' mawr yn y wasg am fethiannau'r ddarpariaeth addysgol yng Nghymru. Canran yn unig o ddisgyblion ysgol a safodd yr arholiad, ac nid oedd unrhyw hyfforddiant ar ei gyfer. Yn ôl y disgyblion a gafodd gyfweliad o flaen y camera teledu, roedd rhannau o'r prawf yn gwbl ddieithr iddynt, ac nid oedd yn agos at gwricwlwm yr ysgol. Onid yw'n rhyfedd bod y wasg yn cynnig penawdau'n sôn am fethiant addysg ar gefn y canlyniadau hyn, a bod y pleidiau gwleidyddol yn defnyddio'r dystiolaeth i wawdio methiant y llywodraethau sy'n darparu addysg yn eu gwledydd?

Beth bynnag yw buddioldeb y profion, ac mae'n siŵr fod yna werth iddynt, prin fod hynny yn sail dros ddweud fod addysg o safon uwch yn bodoli mewn un wlad o'i chymharu â'r safon mewn gwlad arall. Aethom yn or-barod i ddyrchafu rhai a sarhau eraill, nid mewn trafodaeth adeiladol, ond er mwyn gweld cyfle i fychanu llywodraethau'r dydd. Os daeth disgyblion China yn uchel ar restr y gynghrair Pisa eleni, prin fod modd cau ein llygaid i ddiffyg gofal ac amgylchiadau byw llawer o blant gogledd China o'u cymharu â phlant gwledydd Ewrop yn gyffredinol. Efallai y bydd y cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru â gwell hyfforddiant a fydd yn addas ar gyfer Profion Pisa y dyfodol. Ond nid yw hynny'n fesur o ymroddiad yr athrawon nac ymdrech y digyblion yng Nghymru nac yn unrhyw wlad arall.

Arwyddair Ysgol y Preseli yw 'Cofia Ddysgu Byw', ac mae hynny'n dibynnu'n helaeth ar werthoedd yr addysgu. Bydd crefyddwyr ein dydd yn siŵr o feithrin gwerthoedd a gwirioneddau, a bydd Cristnogaeth am gyhoeddi mai dim ond am gyfnod yn unig y byddwn ar y ddaear hon. Credwn mewn bywyd newydd yng Nghrist sydd â disgwyliadau moesol, lle bydd egwyddorion cariad, trugaredd a maddeuant yn sylfeini bywyd o barch, heddwch a dynoliaeth lawn dwf. Boed i ni weld pob cefnogaeth bosibl yn cael ei chynnig i ieuenctid ein dydd, ac y byddant yn dysgu bod yn ddinasyddion aeddfed a chyfrifol.

## Llythyr agored at Aelodau'r Senedd

Mae un ar bymtheg o arweinwyr sy'n cynrychioli cymunedau ffydd ledled Cymru wedi llofnodi llythyr agored ar y cyd at Aelodau'r Senedd wrth i'r tymor newydd ddechrau.

**Neges o gefnogaeth**

Mae'r llythyr yn nodi bod y llofnodwyr yn gweddïo dros Aelodau'r Senedd 'ar yr adeg bwysig hon' ac yn cydnabod bod 'cost bersonol i wasanaeth cyhoeddus'. Mae ein diolch i'r Aelodau am eu 'parodrwydd a'u hawydd i weithio er lles cyffredin holl bobl Cymru', ac yn disgrifio dechrau tymor y Senedd hwn fel 'eiliad newydd' i'r genedl.

**Ar ragfarn a rhyddid crefyddol**

Mae'r llythyr yn cyfeirio at 'densiwn sylweddol ledled y Deyrnas Unedig' ac yn nodi bod llawer o bobl mewn cymunedau yng Nghymru 'yn byw gyda rhywfaint o ofn drostynt eu hunain ac yn enwedig dros eu plant'. Mae'n galw am gynnal urddas cynhenid pob person ac am gydnabod rhyddid crefyddol 'fel y gall pawb ymarfer eu cred mewn heddwch a thawelwch'. Mae'r llythyr yn nodi bod yn rhaid gwrthod gwrth-Semitiaeth, rhagfarn gwrth-Hindŵaidd, Islamoffobia, a rhagfarn yn seiliedig ar grefydd neu ethnigrwydd.

**Rôl cymunedau ffydd**

Mae'r llythyr yn tynnu sylw at gyfraniad cymunedau ffydd mewn addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau eraill, ac yn disgrifio mannau addoli fel canolfannau ar gyfer cymorth cymdeithasol ac integreiddio. Mae'n nodi bod arweinwyr ffydd wedi 'ymrwymo i hyn barhau a thyfu'.

**Edrych ymlaen**

Mae'r llythyr yn cloi trwy fynegi dymuniad i rannu enghreifftiau o wasanaeth cyhoeddus sy'n seiliedig ar ffydd ar y lefel leol, ac i ddyfnhau 'cydweithrediad, dealltwriaeth a derbyniad' rhwng cymunedau ffydd a'r Senedd.

**Annwyl Aelod o'r Senedd,**

Ysgrifennwn atoch wrth i'r Senedd newydd gychwyn ar ei gwaith, er mwyn rhoi sicrwydd i chi ein bod ni'n gweddïo drosoch ar yr adeg bwysig hon. Fel Arweinwyr Ffydd, rydym yn gwybod ychydig am y gost bersonol sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyhoeddus, a diolchwn i chi am eich parodrwydd a'ch dyhead i weithio dros les cyffredin holl bobl Cymru. Rydym yn ymwybodol bod hwn yn 'gyfnod newydd' i'n cenedl a bod y Senedd yn dechrau ei gwaith o'r newydd mewn adeg o densiwn sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae nifer yn ein cymunedau yn byw gyda rhyw ofn dros eu lles personol ac yn enwedig lles eu plant. Pwysleisiwn urddas cynhenid pob unigolyn a chredwn y dylid trin pawb â'r parch mwyaf, gan gydnabod eu rhyddid o ran crefydd fel y gall pawb arfer eu cred mewn tangnefedd a llonyddwch. Mae'n rhaid ymwrthod â gwrth-Semitiaeth, rhagfarn yn erbyn Hindŵiaid, Islamoffobia, a rhagfarn ar sail crefydd neu ethnigrwydd. Gwneir cyfraniad aruthrol gan gymunedau ffydd, gan helpu cymaint ar draws ein cenedl, o ran addysg, gofal iechyd a thrwy ystod eang o wasanaethau a phrosiectau sy'n gwasanaethu rhai o'r bobl fwyaf anghenus. Gweithreda addoldai fel 'hybiau' pwysig sy'n estyn allan i'r gymuned ac integreiddio. Rydym yn falch o gael gweithio felly ac ymrwymwn i sicrhau y bydd yn parhau ac yn tyfu. Edrychwn ymlaen at y cyfleoedd a ddaw i rannu gyda chi y stori hon am wasanaeth cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sut y'i gweithredir yn lleol. Yn ogystal, disgwyliwn yn arw at ddyfnhau ein perthynas o gydweithredu, cyd-dealltwriaeth a chydnabyddiaeth fel y cawn ni oll gydweithio er lles pawb yng Nghymru.

**Yr eiddoch yn gywir,**

Yr Archesgob Mark O'Toole, Archesgob Metropolitan Caerdydd-Mynyw, yr Eglwys Gatholig
Yr Archesgob Cherry Vann, Esgob Mynwy, yr Eglwys yng Nghymru
Y Parch. Dyfrig Rees, Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Y Parch. Ganon Tim Rowlands, Y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru
Y Rabbi Michoel Rose, Synagog Unedig Caerdydd
Laurence Kahn, Cyngor Cynrychiolwyr yr Iddewon yn Ne Cymru
Dr Abdul-Azim Ahmed, Cyngor Mwslimaidd Cymru
Imam Usman Manan, Y Gymuned Fwslimaidd Ahmadiyya yng Nghymru
Gurmit Singh Randhawa MBE, Cyngor Siciaid Cymru
Dr Sakti Guha Niyogi, Cyngor Hindŵiaid Cymru
Radhika Kadaba, Cadeirydd Cyngor Hindŵiaid Cymru
Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Kate McColgan, Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Katie Gilmour, Cynrychiolydd Rhyng-ffydd Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf
Corinne Hainsworth, Cynrychiolydd Rhyng-ffydd y Gymuned Bahá'í
Marilyn Priday, Cynrychiolydd Rhyng-ffydd ac Ymddiriedolwraig Tŷ'r Gymuned, Casnewydd

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.